



Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur Aferiad Gwyrdd: Sut y gall Ffermio ei Gyflawni

Cyflwyniad

Mae'r [Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur](#) (NFFN) yn sefydliad annibynnol a sefydlwyd ym mis Tachwedd 2017 ac yn cael ei arwain gan ffermwyr. Rydym yn uno ffermwyr sydd wedi ymrwmo i reoli eu tir er lles bywyd gwylt a darparu nwyddau cyhoeddus, yn ogystal â thyfu a darparu bwyd iach a maethlon. Rydym yn fudiad sy'n gweitho ar draw y DU, gyda [Grŵp Llywio NFFN Cymru](#) sefydledig.

Mae'r tirlun yng Nghymru wedi'i siapio gan ffermio, ac eto, nid yw pob newid yn y cyfnod diweddar i'w groesawu; mae priddoedd wedi eu disbyddu, cyrsiau dŵr wedi dirywio ac mae natur wedi ei chael hi'n anodd ymdopi â chyflymder y newid. Mae [Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2019](#) yn nodi bod **1 o bob 6 rhywogaeth bywyd gwylt yng Nghymru dan fygythiad o ddifodiant**. Fodd bynnag, mae llawer o ffermydd yn mynd yn groes i'r duedd hon, ac mae nifer o ffermwyr wedi cyflawni gwaith anhygoel wrth helpu bywyd gwylt i ffynnu ar eu tir - credwn y dylid eu cefnogi a'u gwobrwyo'n well am eu gwaith da. Os bydd mwy yn dilyn eu hesiampl, gallwn wrthdroi'r dirywiadau hyn.

Gall ffermio er lles natur helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd ac ecolegol, cefnogi cymunedau ac economïau gwledig sy'n ffynnu, cynhyrchu digon o fwyd cynaliadwy iach a gwella iechyd y cyhoedd. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, rydym yn annog pob plaid wleidyddol i ymrwmo i'r **6 o ofynion allweddol** canlynol:

1. Cynnal ac ailgyfeirio taliadau tuag at sicrhau bod ffermio er lles natur yn gyffredin yn y diwydiant
2. Ymrwmo i ddiwydiant amaeth di-garbon erbyn 2040
3. Cynnal safonau amgylcheddol a lles anifeiliaid cadarn
4. Creu marchnadoedd ar gyfer cynnyrch ffermio er lles natur
5. Buddsoddi mewn systemau bwyd lleol
6. Addysgu pobl am fwyd, ffermio a natur

Gyda dros 80% o Gymru yn dir amaeth mae angen i ni weithredu nawr. Trwy ymrwmo i'r 6 phwynt hyn gallwn helpu i sicrhau:



1. Cynnal ac ailgyfeirio taliadau tuag at sicrhau bod ffermio er lles natur yn gyffredin yn y diwydiant

Gall polisi amaethyddol yn y dyfodol fod wrth wraidd mynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd, gall gefnogi economïau a chymunedau gwledig, cynhyrchu bwydydd iach, cynaliadwy a gwella iechyd y cyhoedd.

- Dylai polisi amaeth newydd yng Nghymru ganolbwyntio ar wario *arian cyhoeddus am nwyddau cyhoeddus*, sy'n **gwobrwyo ffermio er lles natur** a'r buddion amgylcheddol lluosog y mae'n eu darparu.
- Mae angen digon o **gyllid tymor hir** i gynorthwyo ffermwyr wrth iddynt drosglwyddo i systemau sydd er lles natur ac i barhau i wobrwyo cynhyrchu nwyddau cyhoeddus.
- Mae **cyngor ac arweiniad** priodol yn hanfodol er mwyn helpu ffermwyr yn ystod y cyfnod trawsnewidiol hwn a thu hwnt.
- Dylai cynlluniau yn y dyfodol fod **ar gael i fwy o ffermwyr** heb unrhyw gyfyngiadau ar eu derbyn yn seiliedig ar faint o dir sydd ganddynt. Mae gan bob ffermwr y potensial i ddarparu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol a gellir annog hyn heb i unrhyw sector fod o dan anfantais.
- Croesawn hefyd **gymorth ariannol i ffermwyr gael buddsoddi** mewn isadeiledd, peiriannau, offer neu dechnoleg er mwyn **annog cynhyrchu bwyd cynaliadwy**.

Mae'r symudiad tuag at ffermio sy'n fwy cyfeillgar i fyd natur yn sicrhau buddion ehangach i'r cyhoedd, gan gynnwys amddiffyn rhag llifogydd, gwella ansawdd dŵr ac aer, a mynediad i dirweddau naturiol sy'n ffynnu. Ar ben hynny, yn aml gall ffermio er lles natur fod y ffordd fwyaf proffidiol o gynhyrchu bwyd. Er enghraifft, gall gweithredu lefelau cynaliadwy o gynhyrchu da byw ar sail gallu cynhyrchiol naturiol y tir fod yn ffordd o [gynyddu proffidioldeb](#). Er y gall systemau ffermio dwys hefyd fod yn broffidiol yn ariannol, meddylfryd tymor byr yw hwn oherwydd eu heffaith negyddol ar ein hadnoddau naturiol - sef conglfeini cynhyrchu bwyd. Dyma ychydig mwy o wybodaeth am pam mae [natur yn dda i fusnes](#).

2. Ymrwymo i ddiwydiant amaeth di-garbon erbyn 2040

Mae tir sy'n cael ei reoli'n dda ar gyfer natur hefyd yn storio carbon ac yn helpu i [liniaru newid yn yr hinsawdd](#). Gall **atebion syml sy'n seiliedig ar natur** fel plannu coed a gwrychoedd, gwella iechyd y pridd ac annog bioamrywiaeth glaswelltir, ynghyd â rheolaeth fwy cymhleth fel adfer mawngogydd, chwarae rhan fawr wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

- Dylai sector amaethyddol Cymru fod yn **sero carbon net erbyn 2040** fan hwyraf. Gall pob ffermwr wneud newidiadau i leihau allyriadau carbon a storio carbon ar ei fferm.
- Dylai fod gan bob busnes **asesiad carbon sylfaenol** er mwyn cael dealltwriaeth eang o'r sefyllfa ar ei fferm a helpu i gadw trywydd o gynnydd.
- Bydd **cyngor a chefnogaeth** ar draws y sector yn bwysig i helpu ffermwyr i ddewis y mesurau cywir.

Gall llawer o gamau i leihau ôl troed carbon fferm wneud synnwyr economaidd, er enghraifft gall newidiadau i gynnwys cynydu o godlysiau neu annog fwy o rywogaethau yn y borfa leihau'r angen i brynu gwirtaith artiffisial. Gall cynnal lefelau da byw a rheoli pori cynaliadwy wella ar y gallu i ddal a storio carbon, cynyddu bioamrywiaeth a chwarae rhan bwysig mewn ailgylchu maethynnau. Mae ein hadroddiad [Farming for our future: The nature friendly climate solution we urgently need](#) yn dangos sut y gall ffermio er lles natur helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Am fwy o wybodaeth darllenwch [safbwynt NFFN ar Ffermio Net Sero](#).

3. Cynnal safonau amgylcheddol a lles anifeiliaid cadarn

Mae pandemig COVID-19 yn ein hatgoffa'n amlwg iawn o'n perthynas doredig â natur, yr amgylchedd a bwyd, gydag astudiaethau'n cysylltu'r afiechyd â chwalfa ecosystemau a dinistrio bywyd gwyllt. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn cynnal ein safonau diogelu'r amgylchedd, lles anifeiliaid a diogelwch bwyd.

- Rydym yn dal i bryderu y gallai cytundebau masnach yn y dyfodol danseilio'r safonau uchel a osodir gan ffermwyr Cymru a'r DU. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddwyn pwysau ar Lywodraeth y DU i ymrwymo i **safonau bwyd, amgylcheddol a lles anifeiliaid cadarn ar gyfer cytundebau masnach**; sicrhau nad yw ffermwyr yn y DU yn dioddef oherwydd bod bwyd rhatach yn cael ei fewnforio sy'n cael ei gynhyrchu i safonau is, ac amddiffyn y cyhoedd rhag cynnyrch nad yw'n cwrdd â'n safonau uchel ni.
- Rhaid i bolisi amaethyddol yng Nghymru yn y dyfodol gyflawni **rheoliadau amgylcheddol sylfaenol cryf ac ymrwymiad cyllido tymor hir**. Yn y bôn, rhaid iddo alluogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd diogel, iach wrth helpu ein pridd, tirweddau a'n hafonydd ac i adfer bywyd gwyllt a'i alluogi i ffynnu.
- Dylai safonau amgylcheddol sylfaenol cadarn ar gyfer rheoli tir fod **yn berthnasol i bawb**, hyd yn oed y rhai sy'n dewis peidio ag ymwneud ag unrhyw gynlluniau rheoli tir er lles amgylcheddol.

4. Creu marchnadoedd ar gyfer cynnyrch ffermio er lles natur

Credwn y dylid cydnabod bwyd sy'n cael ei gynhyrchu i safonau natur ac amgylcheddol uchel yn y farchnad a bod ffermwyr sy'n glynu atynt yn cael eu gwobrwyo. Gall hyn helpu i gyflawni gwelliannau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Y peth arbennig am fwyd yw ei fod yn cynnig tair pleidlais y diwrnod. Gall pob un ohonynt newid y byd.

- Rydym yn argymhell bod cyllid yn cael ei ddefnyddio i helpu i **ddatblygu cadwyni cyflenwi a marchnadoedd ar gyfer cynnyrch llesol i fyd natur** a fydd yn helpu i gymhell a gwobrwyo ffermwyr i reoli adnoddau naturiol yng Nghymru mewn ffyrdd cynaliadwy.
- Mae labeli fel *Fair to Nature*, *Leaf Marque*, *Organig* a *Pasture for Life* yn ffyrdd da o ddangos cynaliadwyedd amgylcheddol a dylid annog a chefnogi ffermwyr i fabwysiadu arferion ffermio o'r fath. Gall aelodaeth o gynlluniau fel hyn greu mantais fusnes i gynhyrchwyr, ond mae hyn yn dibynnu ar **gymell ffermwyr i beidio defnyddio arferion anghynaliadwy** a allai eu tanseilio.
- Gellid marchnata **bwyd a gynhyrchir ar dir a reolir o dan gynlluniau er lles amgylcheddol sy'n cael eu hariannu gan y llywodraeth** ar sail ei rôl yn darparu buddion amgylcheddol.
- Yn yr un modd, mae cyfleoedd i greu **dangosyddion daearyddol** ar gyfer cynhyrchion sy'n deillio o dirweddau penodol.

Mae rôl amlwg i'r llywodraeth fynd ati'n syth ac yn egniol i ddarparu amgylchedd busnes i gynhyrchwyr sylfaenol sy'n eu galluogi i sicrhau pris teg o'r farchnad, a chyfran deg o'r elw sy'n bodoli yn y gadwyn gyflenwi.

5. Buddsoddi mewn systemau bwyd lleol

Mae angen system arnom sy'n sicrhau bod ffermwyr yn cael pris teg am sicrhau bod bwyd yn iach, yn fforddiadwy ac yn cael ei gynhyrchu'n gynaliadwy. O ran polisi bwyd, dylai rôl y Llywodraeth fod yn un o 'alluogi', gan sefydlu strwythurau i hwyluso dull cenedlaethol strategol o ymdrin â bwyd.

- Dylai **rheolau caffael cyhoeddus flaenoriaethu prynu bwyd lleol** yn uniongyrchol gan ffermwyr Cymru lle bo hynny'n bosibl, a rhoi blaenoriaeth i ffermwyr sydd ag arferion sefydledig o ffermio er lles natur a rheolaeth tir amgylcheddol ragorol.
- Gellid dadlau nad oes y fath beth â bwyd lleol heb bresenoldeb **seilweithiau bwyd lleol**. Gall costau cudd ar hyd y cadwyni cyflenwi cyfan e.e. milltiroedd bwyd uchel neu borthiant da byw sy'n arwain at ddatgoedwigo dros y byd, gamarwain defnyddwyr. Mae angen buddsoddiad yn y maes hwn, ac mae hwyluso lladd-dai lleol a chyfleusterau cigydd a gweithgynhyrchu ar y fferm os oes galw, yn hanfodol os ydym am ddatblygu system fwyd leol go iawn.
- Datblygu **hybiau bwyd** i gysylltu ffermwyr a chynhyrchwyr lleol â defnyddwyr - gall **tryloywder mewn cadwyn gyflenwi bwyd fyrrach** helpu i ailgysylltu pobl â lle mae eu bwyd yn cael ei gynhyrchu a sut mae'n siapio'r amgylchedd.
- Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth neu weledigaeth realistig o ba fath o fwydydd y mae angen i ni eu cynhyrchu yng Nghymru, gan wneud eu cynhyrchu, eu cyflenwi a'u defnyddio'n gydnaws â'i gilydd.

Mae nifer o ffermwyr NFFN yn newid y ffordd maen nhw'n cyflenwi'r bwyd maen nhw'n ei gynhyrchu ac yn ei farchnata'n uniongyrchol i'r cyhoedd, trwy gadwyni cyflenwi lleol neu ar-lein. Gweler ein hadroddiad [Feeding the Nation: How Nature Friendly Farmers are Responding to Covid-19](#) am enghreifftiau. Dyma ychydig mwy o wybodaeth am [Sefyllfa Polisi Bwyd NFFN](#).

6. Addysgu pobl am fwyd, ffermio a natur

Mae codi ymwybyddiaeth o ble mae ein bwyd yn dod a'i effaith ar y blaned yn hanfodol er mwyn gwella dealltwriaeth y cyhoedd am fwyd, ffermio a'r amgylchedd.

- Dylid cynnwys bwyd, ffermio a byd natur yng **nghwricwlwm ein hysgolion a'n colegau**.
- Gall **ail-gysylltu pobl â ffermydd a'u bwyd** drwy ymweliadau ysgol, addysg gymunedol a gweithdai ar ffermydd lleol helpu i sbarduno newid. Dylai ffermwyr gael eu cefnogi i ymgysylltu â'r cyhoedd a allai hyn gael ei gefnogi gan lywodraeth ganolog neu lywodraeth leol.
- Byddai **ffermwyr hefyd yn elwa** o hyfforddiant/ cael sgleini ar eu sgiliau/ dysgu cymar-i-gymar ar fuddion ffermio er lles natur. Dylai cyngor ac arweiniad, er enghraifft trwy'r rhaglen *Cyswllt Ffermio* sy'n cael ei hariannu gan y llywodraeth, roi **mwy o bwyslais ar gadwraeth natur a buddion busnes ffermio er lles natur**.

Ar hyn o bryd, mae yna ddiffyg cysylltiad rhwng cwsmeriaid a ffermwyr a diffyg dealltwriaeth o'r hyn sy'n dda neu'n ddrwg i'r amgylchedd. Mae angen i ni godi ymwybyddiaeth pobl o ble mae eu bwyd yn dod ac effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd cadarnhaol systemau ffermio er lles natur.

Casgliadau

Mae gan ffermio er lles natur ran fawr i'w chwarae wrth sicrhau Adferiad Gwyrdd yn dilyn Covid-19. Gall helpu i wella iechyd y cyhoedd, economïau gwledig a chymunedau, tanatgu diogelwch bwyd, ynghyd â mynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd. Byddai'r Rhwydwaith yn croesawu'r cyfle i weithio'n agos ar ddrafftio polisiau a datblygu mentrau i helpu ffermio natur-gyfeillgar fod yn beth cyffredin yng Nghymru. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Hilary Kehoe (Cadeirydd NFFN Cymru) hilary.kehoe@nffn.org.uk neu info@nffn.org.uk